OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 585

# Gorchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) 2022

## RHAN 2

## CAU DOC TYWYSOG CYMRU

**Cau Doc Tywysog Cymru**

**3.**—(1) Caiff Porthladdoedd AB, ar ddiwrnod o fewn 42 o ddiwrnodau gan ddechrau pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, gau Doc Tywysog Cymru.

(2) Pan gaeir Doc Tywysog Cymru o dan baragraff (1)—

(a) mae Doc Tywysog Cymru yn peidio â ffurfio rhan o Borthladd Abertawe;

(b) mae pob dyletswydd a rhwymedigaeth a osodir ar Borthladdoedd AB o dan Ddeddfau Harbwr Abertawe 1874 – 1901 mewn cysylltiad â Doc Tywysog Cymru i ddod i ben;

(c) mae unrhyw hawliau mordwyo, a phob un ohonynt, o fewn Doc Tywysog Cymru wedi eu diddymu;

(d) mae unrhyw ddyletswyddau neu rwymedigaethau, a phob un ohonynt, i gynnal sianel fordwyol i Ddoc Tywysog Cymru o fewn yr ardal a ddangosir â llinellau glas ar blan Doc Tywysog Cymru neu i gynnal pont droi ar draws yr ardal honno wedi ei diddymu.

(3) Cyn arfer y pŵer a roddir iddo gan baragraff (1) rhaid i Borthladdoedd AB—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i gau Doc Tywysog Cymru yn Lloyd's List ac unwaith ym mhob un o ddwy wythnos olynol mewn papur newydd lleol a gyhoeddir neu sy'n cylchredeg yn Abertawe gyda chyfnod rhwng y dyddiadau cyhoeddi nad yw'n llai na chwe diwrnod gwaith;

(b) arddangos copi o un o'r hysbysiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(a) mewn lle amlwg yng nghyffiniau Porthladd Abertawe;

(c) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'i fwriad i gau Doc Tywysog Cymru.

(4) Rhaid i'r hysbysiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(a)—

(a) datgan bod Porthladdoedd AB yn bwriadu cau Doc Tywysog Cymru i lestrau a'r dyddiad y mae Doc Tywysog Cymru i gau i lestrau ohono;

(b) pennu dyddiad, sy'n ddyddiad nad yw'n gynharach nag un mis ar ôl dyddiad y diweddaraf o'r tri hysbysiad ym mharagraff (3)(a) erbyn pryd y mae rhaid i bob llestr gael ei symud o Ddoc Tywysog Cymru.

**Cymhwysiad Deddfau Harbwr Abertawe 1874 – 1901**

**4.**—(1) Pan gaeir Doc Tywysog Cymru yn unol ag erthygl 3, mae Deddfau Harbwr Abertawe 1874 – 1901, gan gynnwys unrhyw gytundeb sydd wedi ei atodi i unrhyw un neu ragor o'r Deddfau hynny, yn peidio â bod yn gymwys i Ddoc Tywysog Cymru.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) adran 6 (pŵer i ddargyfeirio dŵr i'r dociau) o Ddeddf 1874;

(b) adran 7 (pŵer i ddargyfeirio dŵr i'r dociau) o Ddeddf 1894;

(c) adran 7 (pŵer i gymryd dŵr a'i ddargyfeirio) o Ddeddf 1901.

**Symud llestrau o Ddoc Tywysog Cymru**

**5.**—(1) Os nad yw meistr unrhyw lestr sydd o fewn Doc Tywysog Cymru yn symud y llestr cyn y dyddiad a bennir yn unol ag erthygl 3(4)(b), caiff y docfeistr beri i'r llestr honno gael ei symud o Ddoc Tywysog Cymru a'i hangori neu ei gosod yn unrhyw le arall lle y gall, heb niwed, gael ei hangori neu ei gosod.

(2) Caiff Porthladdoedd AB adennill fel dyled gan feistr unrhyw lestr a symudir o dan baragraff (1) bob traul resymol yr eir iddi mewn cysylltiad â'i symud.

**O ran llestrau yn mynd i Ddoc Tywysog Cymru**

**6.** Os yw unrhyw lestr yn mynd i Ddoc Tywysog Cymru ar ôl y dyddiad a bennir yn erthygl 3(4)(b) o'r Gorchymyn hwn, caiff y docfeistr gyfarwyddo meistr y llestr i symud y llestr o Ddoc Tywysog Cymru, ac os nad yw meistr y llestr yn cydymffurfio heb oedi gormodol â chyfarwyddydau o'r fath, mae erthygl 5 yn gymwys i'r llestr fel pe bai'r llestr wedi bod o fewn Doc Tywysog Cymru cyn y dyddiad hwnnw.